

ARGYMHELLION IS BWYLLGOR MWYNDERAU
NOS IAU 16^{eg} Mawrth 2017
YN SIAMBR Y CYNGOR AM 7.00 O'R GLOCH YR HWYR

Presennol:
Cynghorwyr:
Annwen Daniels
Mel Goch ap Meirion
Erwyn Jones
Ronwen D Roberts
Wil Guest Roberts
Bedwyr Gwilym

Ymddiheuriad:
Cynghorydd:
Mandy Williams-Davies
Mari Rees

DATGAN DIDDORDEB

Ni fu i unrhyw Gynghorydd Datgan Diddordeb

1. **Adroddiad Caeau Chwarae**
Bu i'r cynghorwyr drafod adroddiad archwiliwr caeau chwarae. Cafwyd gwybodaeth gan gynghorydd y byddai bin ychwanegol yn beth da ar gae Sgwâr Oakeley.
Argymell: Ni chafwyd unrhyw nam newydd ar y caeau felly derbyn yr adroddiadau. I holi am brisiau ar gyfer bin gyda logo'r Cyngor Tref arno.
2. **Y Parc** - Bu i'r cynghorwyr drafod pris o £5990.00 cyn TAW ar gyfer siglen a llawr wet pour newydd yn dilyn y difrod diweddar. Cafwyd trafodaeth hefyd ynglŷn â beth i wneud a'r coed.
Argymell: I dderbyn pris G L Jones ar gyfer y siglen ac i drefnu i roi gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol y bydd y coed ar gael yn y Parc dydd Sadwrn 25ain o Fawrth rhwng 10.00 ac 12.00 o'r gloch. Gofynnir am gyfraniad i'r Parc yn dâl am y coed.
3. **Cae Baltic** - Cafwyd trafodaeth beth i wneud gyda'r £3000 sydd wedi ei neilltuo ym mhraesept 2016/17 ar gyfer cyfraniad tuag at ffensio Cae Baltic gan nad yw Ffrindiau Cae Baltic yn gallu cwblhau'r gwaith o ffensio'r cae ar gyfer y datblygiad cyn diwedd y flwyddyn ariannol.
Argymell: I gyfrannu'r £3000 i Ffrindiau Cae Baltic
4. **Cae Bryn Coed** - Cafwyd cais am ganiatâd i ddefnyddio Cae Bryn Coed yn ystod gwyliau'r Pasg
Argymell: I ganiatáu defnyddio Cae Bryn Coed ar amod bod Gwelliannau Ffestiniog yn cytuno a hyn.
5. **Gwefan**
Gofynnwyd am farn pawb ar gynnwys y wefan cyn iddi fynd yn fyw.
Argymell: Pawb i yrru unrhyw sylwadau erbyn dydd Llun 20 Mawrth. I gadarnhau bod Clerc y Dref yn gyfrifol am lanlwytho gwybodaeth ar y wefan er mwyn sicrhau bod y dogfennau diweddaraf yn cael eu cynnwys cyn gynted â modd.
6. **Diffibriliwr** -Cafwyd cyfraniad o £500 gan Dreialon Cŵn Defaid Bro Ffestiniog tuag at y gost o osod diffibriliwr tu allan i'r adeilad.
Argymell: I dderbyn y cyfraniad gyda diolch ac i symud ymlaen gyda phrynu diffibriliwr.

7. **Caniatâd i dalu biliau** Eifion Stores, Kevin Jones a Greenbarnes
Argymell: Rhoddwyd caniatâd i dalu'r biliau
8. **Camerau CC**– Cafwyd trafodaeth ynglyn a gosod camera cc yn swyddfa'r
Cyngor ac ar du allan i'r adeilad yn dilyn digwyddiadau yn ddiweddar
Argymell: I gael pris am gamerau i'r swyddfa a thu allan i'r adeilad.